## ATODLEN 2

## YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN CEISIADAU AM GANIATÅD I OLLWNG NEU FARCHNATA ORGANEDDAU A ADDASWYD YN ENETIG AC EITHRIO UWCHBLANHIGION A ADDASWYD YN ENETIG

# Rhan II

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Â'R ORGANEDDAUAU A ADDASWYD YN ENETIG

*Nodweddion yr organeddau a addaswyd yn enetig*

**19.** Y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr addasu.

**20.** Y dulliau a ddefnyddiwyd—

(a) i lunio mewnosodiadau a chyflwyno'r mewnosodiad neu'r mewnosodiadau i'r organedd sy'n eu derbyn;

(b) i ddileu dilyniant.

**21.** Disgrifiad unrhyw fewnosodiad a/neu wneuthuriad y fector.

**22.** Purdeb y mewnosodiad o unrhyw ddilyniant anhysbys a gwybodaeth am y graddau y mae'r dilyniant a fewnosodwyd wedi'i chyfyngu i'r DNA sy'n ofynnol i gyflawni'r swyddogaeth arfaethedig.

**23.** Y dulliau a'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer dethol.

**24.** Dilyniant, hunaniaeth swyddogaethol a lleoliad y segmentau asid niwclëig dan sylw a newidiwyd, a fewnosodwyd neu a ddilewyd, ac yn benodol unrhyw ddilyniant niweidiol hysbys.